

# Cynllun Iaith Gymraeg 2010

Wedi'i baratoi o dan  
Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Tachwedd 2010

**ico.**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

## Cynnwys

---

- 1 Rhagymadrodd
- 2 Cynllunio Gwasanaethau a'u Cyflwyno
- 3 Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg
- 4 Wyneb Cyhoeddus Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru
- 5 Gweithredu'r Cynllun a'i Fonitro
- 6 Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun
- 7 Manylion Cysylltu

Cafodd y cynllun hwn ei baratoi yn unol ag Adrannau 12 i 14 o'r Ddeddf – a hynny yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Cafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 1 Tachwedd 2010.

## 1. Rhagymadrodd

---

- 1.1 Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ("ICO") yw'r awdurdod annibynnol yn y DU a sefydlwyd i amddiffyn hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, annog cyrff cyhoeddus i fod yn agored a hybu preifatrwydd data i unigolion.
- 1.2 Rydym yn rheoleiddio ac yn gorfodi'r Ddeddf Diogelu Data, Deddf Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Rydym yn darparu canllawiau ar gyfer cyrff ac unigolion, yn dyfarnu ar gwynion cymwys ac yn cael gweithredu pan gaiff y gyfraith ei thorri.
- 1.3 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd ac mae ei bwerau'n cynnwys y gallu i orchymyn bod rhaid cydymffurfio, defnyddio hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau penderfynu, ac erlyn.
- 1.4 Mae pencadlys yr ICO yn Wilmslow yn Sir Gaer. Yno, mae staff sydd wedi'u grwpio yn ôl meysydd eu harbenigedd yn ymdrin â materion diogelu data y Deyrnas Unedig gyfan, ac â materion rhyddid gwybodaeth ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn yr Alban, Comisiynydd Gwybodaeth yr Alban sy'n ymdrin â materion rhyddid gwybodaeth i raddau helaeth. Mae'r ICO yn cynhyrchu swm mawr o gyngor a chanllawiau wedi'u cyfeirio at yr awdurdodau cyhoeddus, busnesau a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- 1.5 O ganlyniad i newid cyfansoddiadol drwy ddatganoli, ac i gydnabod mor bwysig yw cymathu anghenion lleol a sensitifrwydd lleol yn llawn wrth hybu arferion da mewn trafod gwybodaeth, yn 2002 fe benderfynwyd sefydlu presenoldeb yn nhair gweinyddiaeth ddatganoledig y DU. Mae'r swyddfeydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, Belfast a Chaeredin, ac mae gan bob un Gomisiynydd Cynorthwyol yn bennaeth arni a chylch gwaith lleol. Ar hyn o bryd mae 8 o weithwyr wedi'u lleoli yn y swyddfa yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am yr ICO ar gael ar ein gwefan yn [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk).
- 1.6 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun i nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Mae'r ICO wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn

cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd yr ICO yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth lunio'r mesurau sydd wedi'u nodi yn y cynllun, mae ystyriaeth wedi'i rhoi i'r hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, gan gadw mewn cof bod yr ICO yn darparu gwasanaethau ledled y DU.

- 1.7 O swyddfa'r Comisiynydd yng Nghymru yn bennaf y caiff y mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Iaith eu cyflwyno, gyda chyfraniadau gan adrannau eraill yn yr ICO fel y bo'n briodol. Comisiynydd Cynorthwyol Cymru fydd yn goruchwyllo'r Cynllun.
- 1.8 Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf yr ICO ei gymeradwyo ar 21 Mawrth 2007. Mae'r Cynllun diwygiedig hwn yn disodli'r Cynllun gwreiddiol a chafodd ei gymeradwyo ar 1 Tachwedd 2010.
- 1.9 Yn y cynllun hwn, mae'r term cyhoedd yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynswth, neu adran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys mudiadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn perthyn o fewn ystyr y term 'cyhoedd'.

Er hynny, nid yw'r term yn cynnwys personau sy'n gweithredu yn rhinwedd cynrychiolydd i'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. Gan hynny, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus yn perthyn o fewn ystyr y gair cyhoedd wrth gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny, er mai personau cyfreithiol ydyn nhw.

- 1.10 Mae'r ICO yn ymwneud yn helaeth â sefydliadau statudol sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth a'r Wladwriaeth. Defnyddir y term 'sector cyhoeddus' i gyfeirio at y sefydliadau hyn. Nid busnes 'cyhoeddus' yw busnes yr ICO gyda'r sefydliadau hyn mewn gwirionedd o dan ddiffiniad y gair hwnnw (gweler y paragraff uchod), ond eto i gyd byddwn yn ceisio defnyddio egwyddorion y Cynllun Iaith wrth inni ymwneud â sector cyhoeddus Cymru ble bynnag y gallwn yn rhesymol.
- 1.11 Mae rhagor o wybodaeth am hyd a lled cynlluniau iaith Gymraeg a'u diben ar gael yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ([www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)).

## **2. Cynllunio gwasanaethau a'u cyflwyno**

---

### **2.1 Polisiau a Gwasanaethau**

- 2.1.1 Bydd ein polisiau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn helpu i ddefnyddio'r Gymraeg a, pryd bynnag y bo modd, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywyd beunyddiol.
- 2.1.2 Wrth gyfrannu at ddatblygu polisiau a gwasanaethau newydd i'r ICO neu at eu cyflwyno, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.
- 2.1.3 Trefnir bod pob gweithiwr sy'n ymwneud â llunio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun. Er hynny, staff swyddfa Cymru fydd yn bennaf cyfrifol am ystyried a fydd y polisiau a'r mentrau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r ymrwymadau sydd wedi'i roi yn y Cynllun hwn.

### **2.2 Cyflwyno Gwasanaethau**

- 2.2.1 Ein harfer cyffredin fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg, a byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.
- 2.2.2 Drwy swyddfa Cymru yn bennaf y caiff gwasanaethau eu cyflwyno i'r rhai sy'n siarad Cymraeg a'u cyd-drefnu. Oherwydd graddfa fach y swyddfa honno, fe allai'r gallu i ymateb yn Gymraeg amrywio o dro i dro, yn ôl y medrau Cymraeg sydd gan y staff a fydd yn bresennol yn y swyddfa. Serch hynny, bydd yr ICO yn cymryd camau cadarnhaol, yn ystod oes y Cynllun Iaith, i gynyddu'r medrau Cymraeg yn y swyddfa.
- 2.2.3 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partion yn gyson â'r rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a fydd yn cael eu contractio allan.

### **2.3 Safonau Ansawdd**

- 2.3.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg neu Saesneg o ansawdd gydradd ac yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

## 3. Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

---

### 3.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

- 3.1.1 Mae canran fawr o waith yr ICO yn cael ei wneud drwy ohebiaeth ysgrifenedig, boed ar gopi caled ynteu ar ffurf electronig. Mae'r ICO yn croesawu gohebiaeth Gymraeg neu Saesneg, a bydd pob ateb yn cael ei anfon yn yr un iaith â'r llythyr gwreiddiol neu'r neges e-bost wreiddiol.
- 3.1.2 Mae Atodiad B yn rhoi canllawiau i esbonio'n glir pa gyhoeddiadau a fydd, ac na fydd, yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog.
- 3.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein targed amser ar gyfer ateb yr un fath ag ar gyfer ateb llythyrau Saesneg.
- 3.1.4 Bydd gohebiaeth â'r rhai y gwyddys ei bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg yn cael ei dechrau gan swyddfa Cymru yn Gymraeg. Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad hwn, bydd cofnod yn cael ei gadw o'r rhai y mae'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.
- 3.1.5 Dwyieithog fydd pob cylchlythyr a gyhoeddir i'r cyhoedd yng Nghymru, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bob derbynnydd eu cael yn uniaith Gymraeg neu'n uniaith Saesneg.
- 3.1.6 Os bydd rhaid i fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg unrhyw ohebiaeth gael eu hanfon ar wahân, ein harfer cyffredin fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd.
- 3.1.7 Oni bai bod y gohebydd wedi gofyn fel arall, Cymraeg fydd pob gohebiaeth ysgrifenedig yn sgil cyfathrebu yn Gymraeg yn bersonol neu dros y ffôn.
- 3.1.8 Dwyieithog fydd y papurau amgaeedig a fydd yn cael eu hanfon gyda llythyrau dwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 3.1.9 Cymraeg neu ddwyieithog fydd y papurau amgaeedig a fydd yn cael eu hanfon gyda llythyrau Cymraeg, pan fyddant ar gael.
- 3.1.10 Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth drwy'r e-bost yn ogystal ag i ohebiaeth ar bapur.

- 3.1.11 Os oes angen llofnod arno, bydd pob copi caled o ohebiaeth Gymraeg sy'n cael ei anfon yn cael ei lofnodi.
- 3.1.12 Er mwyn mynd ati'n wrthrychol i ddod o hyd i unrhyw ohebiaeth safonol na fydd angen ei hanfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog (er enghraifft os yw'r ohebiaeth yn dechnegol iawn neu'n faith iawn) byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gyda'r Bwrdd.

### **3.2 Cyfathrebu dros y Ffôn**

- 3.2.1 Mae swyddfa Cymru'n croesawu galwadau ffôn Cymraeg neu Saesneg, a bydd y staff sy'n ateb ein prif rif cyswllt yng Nghymru yn ateb â chyfarchiad dwyieithog. Byddwn yn annog ein staff yng Nghymru i ateb eu llinellau ffôn uniongyrchol â chyfarchiad dwyieithog ac i ddefnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.
- 3.2.2 Os bydd galwr yn dymuno siarad Cymraeg, byddwn yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ymdrin â'r ymholiad.
- 3.2.3 Os na fydd siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ymdrin â'r ymholiad ar gael, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol, rhwng cael galwad yn ôl gan siaradwr Cymraeg cyn gynted ag y gellir (ar yr amod bod un ar gael), parhau â'r alwad yn Saesneg neu anfon ei ymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu neges e-bost.

### **3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus**

- 3.3.1 Mae'r ICO yn debyg o gynnal digwyddiadau yng Nghymru gydag amrywiaeth mawr o gyrff, gan gynnwys cyfarfodydd a seminarau gyda chyrrff yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, grwpiau cymunedol, a'r cyfryngau.
- 3.3.2 Pan gaiff cyfarfod ei drefnu ar gyfer y cyhoedd, byddwn yn darparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg, oni bai ein bod wedi darganfod bod pawb sy'n cymryd rhan yn debyg o ddefnyddio'r un iaith.
- 3.3.3 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a naill ai yn nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod inni ymlaen llaw ym mha iaith y maent yn dymuno siarad. Byddwn yn rhoi

gwybod i'r rhai sy'n dod i gyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael ac yn annog cyfraniadau Cymraeg a Saesneg.

- 3.3.4 Ein harfer cyffredin fydd darparu papurau a gwybodaeth arall at gyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg – a chyhoeddi adroddiadau neu bapurau a fydd yn cael eu cynhyrchu yn sgil cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg.
- 3.3.5 Bydd y modd y cynhelir unrhyw ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru yn cael ei seilio ar yr un egwyddorion cydraddoldeb ag a nodwyd uchod.

## **4. Wyneb cyhoeddus Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru**

---

### **4.1 Y Ddelwedd Gorfforaethol yng Nghymru**

- 4.1.1 Bydd yr ICO yn mabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog ar gyfer ei swyddfa yng Nghymru.
- 4.1.2 Dwyieithog fydd yr holl ddeunyddiau swyddfa swyddogol, megis penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, dalenni cyflwyno ffacs a chardiau busnes swyddfa Cymru.
- 4.1.3 Os caiff dogfennau eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg, bydd enw'r Swyddfa i'w weld yn Gymraeg ar y fersiwn Cymraeg.
- 4.1.4 Ein polisi arferol fydd sicrhau mai dwyieithog fydd ein holl arwyddion parhaol a thros dro ym manau cyhoeddus swyddfa Cymru, a byddwn yn parhau egwyddor cydraddoldeb o ran eu maint, eu hansawdd a'u hamlygrwydd.

### **4.2 Deunyddiau i'w Cyhoeddi a'u Hargraffu**

- 4.2.1 Un o rolau allweddol yr ICO yw cyhoeddi cyngor a chanllawiau i'r cyhoedd ledled y DU drwy arweinyfrau, codau ymarfer, adroddiadau, dogfennau ymgynghori a deunyddiau hyrwyddo. Mae rhai yn gymwys yn gyffredinol, ond mae llawer yn arbenigol ac wedi'u hanelu at gynulleidfa bendant. Er enghraifft mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau ar Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 wedi'u targedu ar yr awdurdodau

cyhoeddus. Yn unol â pholisi'r ICO o leihau cyhoeddiadau copi caled, ar y wefan yn unig y bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos yn aml.

- 4.2.2 Os bydd rhaid i'r fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg gael eu cyhoeddi ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), fe fydd y ddau fersiwn yn gydradd o ran maint ac ansawdd – a'n harfer cyffredin fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch â'i gilydd. Bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 4.2.3 Mae Atodiad B yn esbonio'n glir pa bryd y dylai deunydd gael ei gyhoeddi yn Gymraeg, naill ai fel dogfennau dwyieithog neu fel fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân.
- 4.2.4 Ar hyn o bryd, does dim tâl yn cael ei godi am gyhoeddiadau'r Swyddfa fel arfer, ond os oes tâl yn cael ei godi yna fydd pris y fersiwn Cymraeg ddim yn fwy na phris y fersiwn Saesneg. Yn yr un modd, os caiff dogfen a phris arni ei chyhoeddi'n ddwyieithog, yna fydd ei phris hi ddim yn fwy na phris fersiwn uniaith.

### **4.3 Ffurflenni**

- 4.3.1 Bydd ffurflenni a deunyddiau esboniadol Cymraeg a Saesneg ar gael gan swyddfa Cymru neu drwy'r wefan. Mae Atodiad B yn nodi'n wrthrychol pa bryd y dylai deunydd gael ei gyhoeddi yn Gymraeg, naill ai fel dogfennau dwyieithog neu fel fersiwn Cymraeg a fersiwn Saesneg ar wahân. Bydd ffurflenni y mae angen i'r cyhoedd eu llenwi ar gael yn Gymraeg bob amser.
- 4.3.2 Os bydd rhaid i'r fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg gael eu cyhoeddi ar wahân (er enghraifft, os byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), fe fydd y ddau fersiwn yn gydradd o ran maint ac ansawdd – a'n harfer cyffredin fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch â'i gilydd. Bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

### **4.4 Hysbysiadau i'r Wasg a Chysylltiadau â'r Cyfryngau**

- 4.4.1 Bydd hysbysiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru, ynghylch achosion Cymreig, yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg fel rheol. Hwyrach na fydd hyn yn bosibl pan fydd rhaid rhyddhau hysbysiadau i'r wasg ar fyrder am ryw reswm.

4.4.2 Caiff ein hysbysiadau i'r wasg eu gosod ar ein gwefan.

4.4.3 Os gwelir bod angen hynny, bydd yr ICO yn ceisio sicrhau bod cysylltwr Cymraeg ei iaith ar gael yn ei holl gynadleddau i'r cyfryngau yng Nghymru.

#### **4.5 Hysbysebu, Marchnata ac Ymgyrchoedd Ymchwil Farchnad yng Nghymru**

4.5.1 Bydd gwaith marchnata a hysbysebu ac ymgyrchoedd ymchwil farchnad sy'n cael eu targedu ar y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyflawni yn ddwyieithog, gan drin y ddwy iaith yn gydradd.

4.5.2 Bydd hysbysebion a osodir mewn papurau newydd Saesneg sy'n cael eu dosbarthu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn ddwyieithog, a bydd hysbysebion a osodir mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn ymddangos yn uniaith Gymraeg.

4.5.3 Bydd arddangosfeydd a deunyddiau arddangos a baratoir gan yr ICO i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog.

4.5.4 Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus sy'n targedu'r cyhoedd yng Nghymru, ein harfer cyffredin fydd sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

4.5.5 Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus sy'n targedu'r cyhoedd yng Nghymru, gofynnir i'r ymatebwyr ddweud a ydynt yn dymuno ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.5.6 Bydd arolygon ffôn sy'n cael eu targedu ar unigolion yng Nghymru yn cael eu cynnal yn newis iaith yr ymatebydd.

4.5.7 Bydd mecanweithiau ymateb ar gyfer gweithgareddau ac ymgyrchoedd sydd wedi darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn caniatáu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

#### **4.6 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff yng Nghymru**

4.6.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd Saesneg neu gyfryngau tebyg sy'n cael eu dosbarthu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Cymraeg fydd yr hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – boed fel un fersiwn dwyieithog ynteu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

#### **4.7 Y wefan**

- 4.7.1 Ar hyn o bryd, yn Saesneg y mae gwefan yr ICO wedi'i darparu. Mae adran 'Cymraeg' wedi'i chreu sy'n arwain at ddeunyddiau sydd wedi'u cynhyrchu yn Gymraeg, ac mae'r tudalennau gwe sy'n ymwneud â Chymru'n benodol yn cael eu hadlewyrchu yn Gymraeg. Mae'r ICO yn bwriadu ailddatblygu ei gwefan gyfan, ac yn unol â hyn bydd y ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei gwella. Bydd yr ICO yn gweithio tuag at ddarparu mwy o gydraddoldeb rhwng y tudalennau Saesneg a'r tudalennau Cymraeg, gan gyfieithu'r tudalennau sy'n fwyaf perthnasol i'r cyhoedd fel blaenoriaeth.
- 4.7.2 Pryd bynnag y byddwn yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, caiff y fersiynau Cymraeg eu gosod yr un pryd, os ydynt ar gael.
- 4.7.3 Pan fydd ffurflenni'n cael eu cyflwyno ar y wefan, trefnir bod fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael yn unol â'r ymrwymadau sydd wedi'u gwneud o dan yr adran yn y cynllun hwn sy'n ymwneud â chyhoeddiadau.
- 4.7.4 Mae croeso i ymwelwyr â'r wefan anfon negeseuon e-bost Cymraeg i'r ICO. Atebir y rhain yn unol â'r mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran 'gohebiaeth ysgrifenedig'.

## **5. Gweithredu'r cynllun a'i fonitro**

---

### **5.1 Staffio a Recriwtio**

- 5.1.1 Rydym yn anelu at recriwtio digon o siaradwyr Cymraeg i sicrhau bod gwasanaeth llawn yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg heb droi at gyfieithwyr yn rhy aml. Er hynny, dylid nodi nad yw'r ICO yng Nghymru yn debyg o fod yn fwy nag wyth i ddeg o weithwyr.
- 5.1.2 Byddwn yn nodi meysydd gwasanaeth lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol. Gallai'r gofyniad hwn gael ei ddiffinio fel cydran mewn ffrwd waith neu dîm, yn

hytrach na bod ynghlwm wrth swydd benodol. Bydd yn ofynnol i unigolion yn swyddi'r rheng flaen ddysgu'r iaith os nad ydyn nhw'n ei siarad yn barod.

- 5.1.3 Os bernir bod rhugledd yn y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, bydd hynny'n cael ei ddatgan ymhlith cymwyseddau'r swydd ac mewn hysbysebion. Dilynir proses yn ystod y recriwtio i benderfynu a fydd medrau Cymraeg yn faen prawf dymunol neu hanfodol ar gyfer pob swydd. Bydd yr angen cyfredol i gynyddu galluoedd Cymraeg yr ICO yng Nghymru yn ystyriaeth bwysig yn y broses nes bod yr angen wedi'i ddiwallu.
- 5.1.4 Gall ymgeisydd nad yw'n siarad Cymraeg gael ei benodi i swydd y bernir bod Cymraeg yn hanfodol ar ei chyfer, ond lle gall amser gael ei ganiatáu i ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, bydd dysgu'r iaith nes cyrraedd y lefel cymhwysedd angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno yn un o'r amodau cyflogi.
- 5.1.5 Pan na fydd modd dod o hyd i ymgeiswyr Cymraeg addas ar gyfer swydd lle mae'r iaith yn hanfodol (neu tra bydd ymgeisydd nad yw'n siarad Cymraeg wedi'i benodi a'i fod wrthi'n dysgu'r iaith) byddwn yn gwneud trefniadau dros dro y gall y gwasanaeth Cymraeg gael ei ddarparu odanynt (er enghraifft drwy ddefnyddio staff Cymraeg o fan arall yn ein sefydliad i gyflwyno rhannau o'r gwasanaeth).
- 5.1.6 Bydd pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer pob swydd yn swyddfa Cymru.
- 5.1.7 Byddwn yn cynnal archwiliadau blynyddol i ddod o hyd i niferoedd, lefelau gallu a lleoliad y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (gan gynnwys staff sydd wrthi'n dysgu). Byddwn hefyd yn nodi'r staff hynny sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder drwy'n gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

## **5.2 Dysgu Cymraeg a Hyfforddiant Galwedigaethol**

- 5.2.1 Bydd yr ICO yn annog ac yn helpu staff sy'n gweithio yng Nghymru sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella'u gallu ieithyddol presennol, a bydd cymorth ariannol yn cael ei roi lle bo'n briodol er mwyn i'r staff ddilyn cyrsiau. Trefnir bod adnoddau (o fewn rheswm) ar gael hefyd i hwyluso'r cymorth hwn, er enghraifft, darparu sillafwyr a geiriaduron Cymraeg, a

bydd y staff at ei gilydd yn cael caniatâd i fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

5.2.2 Bydd cyrsiau lleol priodol yn cael eu nodi ar gyfer pob lefel o ddysgu'r iaith, a chaiff y manylion eu cylchredeg i'r holl staff yng Nghymru.

5.2.3 Bydd hyfforddiant galwedigaethol mwy penodol hefyd yn cael ei ddarparu os bernir bod ei angen er mwyn rhoi'r Cynllun ar waith. Er enghraifft, fe all fod angen hyfforddiant pellach ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd arbenigol, mewn gwaith cyfieithu, neu mewn medrau ffôn.

### **5.3 Trefniadau Gweinyddol**

5.3.1 Mae'r mesurau yn y cynllun hwn yn dwyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.

5.3.2 Y rheolwyr fydd yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith. Er hynny, Comisiynydd Cynorthwyol Cymru sy'n gyffredinol gyfrifol am weithredu'r Cynllun a'i fonitro, a chaiff y Cynllun ei gyd-drefnu gan un o uwch-aelodau'r staff yn swyddfa Cymru.

5.3.3 Mae'r cynllun gweithredu yn Atodiad A yn nodi sut y byddwn yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Iaith hwn ac yn rhoi amserlen ar gyfer cymryd camau.

5.3.4 Byddwn yn cynhyrchu cyfarwyddiadau desg, neu ganllawiau tebyg, i'n staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i roi'r mesurau yn y cynllun hwn ar waith.

5.3.5 Bydd y cyfarwyddiadau desg presennol, neu ganllawiau tebyg, sy'n cael eu defnyddio gan ein staff, yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau yn y cynllun hwn.

5.3.6 Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'n staff i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn – ac i esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith beunyddiol.

5.3.7 Caiff systemau technoleg gwybodaeth yr ICO eu defnyddio gymaint ag y gellir i hwyluso gwaith i gyflwyno gwasanaethau dwyieithog, er enghraifft drwy ddefnyddio'r wefan, taflenni a ffurflenni a thempledi safonol Cymraeg i'w lawrlwytho, a bydd yr angen i weithredu yn unol â'r cynllun hwn yn cael ei gadw mewn cof wrth inni ddatblygu neu brynu cynhyrchion a gwasanaethau ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

5.3.8 Lle caiff cyfieithwyr allanol eu cyflogi, bydd yr ICO yn sicrhau bod ganddynt gymwysterau addas a'r gallu i roi gwasanaeth o ansawdd ddigonol.

## **5.4 Monitro'r Cynllun**

5.4.1 Caiff y modd y rhoddir y Cynllun Iaith ar waith ei fonitro er mwyn sicrhau ansawdd ac er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Cynllun. Byddwn yn monitro'r cynnydd yn erbyn ein cynllun gweithredu ac yn erbyn y Cynllun Iaith ei hun yn unol â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.4.2 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg bob blwyddyn ym mis Mehefin, gan amlinellu'r cynnydd wrth wireddu'r Cynllun Iaith yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

5.4.3 Bydd yr adroddiadau monitro blynyddol yn cynnwys adolygiad o sut y cydymffurfiwyd â'r Cynllun Iaith, adolygiad o'r camau a gymerwyd i annog y staff i siarad Cymraeg a'u lefelau gallu, adolygiad o'r gwasanaethau Cymraeg y trefnodd yr ICO eu bod ar gael, gan gynnwys gwasanaethau personol y rheng flaen a gwasanaethau electronig, a manylion sut mae'r ICO wedi gweithio i brif-ffrydio ystyriaethau Cymraeg yn eu gwaith.

5.4.4 Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar y Dangosyddion Perfformiad a ganlyn:

DP1 Medrau Cymraeg y staff sy'n gweithio yn ein derbynfa gyhoeddus ac sy'n ateb y brif linell gymorth ar y ffôn.

DP2 Pa ganran o sampl o gontractwyr trydydd parti a aseswyd sy'n darparu gwasanaethau yn unol â'r mesurau perthnasol yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

DP3 Hyfforddiant

(a) Nifer a chanran y staff sydd wedi cael hyfforddiant Cymraeg hyd at lefel cymhwyster ardystiedig.

(b) Nifer a chanran y staff sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg.

DP4 Technoleg Gwybodaeth

(a) Nifer y systemau TG a aseswyd gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

(b) Nifer y cynlluniau gwella a baratowyd yn sgil asesiadau yn defnyddio'r cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog.

DP5 Nifer y cwynion a ddaeth i law bod yna ddiffyg darpariaeth gwasanaeth Cymraeg, manylion y cwynion hynny a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd.

5.4.5 Bydd y targedau a bennir gan y safonau perfformiad a gyhoeddir gan yr ICO yr un mor gymwys i wasanaethau Cymraeg a Saesneg. Bydd unrhyw wahaniaethau yn y safonau rhwng y ddau yn cael eu cynnwys yn y broses fonitro.

## **5.5 Adolygu'r Cynllun a'i Ddiwygio**

5.5.1 Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn tair blynedd ar ôl iddo ddod i rym.

5.5.2 Gall fod angen inni adolygu'r cynllun hwn o dro i dro, neu gynnig diwygiadau, oherwydd newidiadau yn ein swyddogaethau, neu yn yr amgylchiadau y byddwn yn cyflawni'r swyddogaethau hynny odanynt, neu am unrhyw reswm arall.

5.5.3 Ni fydd y cynllun hwn yn cael ei newid heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **5.6 Awgrymiadau/Cwynion**

5.6.1 Mae'r ICO yn croesawu awgrymiadau i wella'i mesurau ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg. Dylai unrhyw awgrymiadau neu gwynion gael eu cyfeirio at Gyd-drefnydd y Cynllun Iaith Gymraeg (gweler 7.0 'Manylion Cysylltu')

5.6.2 I ddechrau, ymdrinnir ag unrhyw gwynion sy'n ymwneud â'n gwasanaethau Cymraeg gan y swyddog dynodedig yn swyddfa Cymru. Wedyn fe allai'r mater gael ei godi gan Gomisiynydd Cynorthwyol Cymru neu'r Comisiynydd Gwybodaeth ei hun.

## **6.0 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun**

---

6.1 Bydd y Cynllun yn cael cyhoeddusrwydd ymhlith ein staff, a'r cyhoedd yng Nghymru, a hynny'n barhaus drwy gyfrwng cyhoeddiadau a gwefan yr ICO.

- 6.2 Trefnir bod holl weithwyr yr ICO yn gwybod bod y cynllun yn bodoli yn ystod eu hyfforddiant ymsefydlu. Bydd cyfarwyddiadau a chanllawiau manylach yn cael eu rhoi i weithwyr sydd â rhan benodol i'w chwarae wrth roi'r Cynllun ar waith, er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli yn swyddfa Cymru.
- 6.3 Bydd y Cynllun ei hun ar gael ar ffurf copi caled neu oddi ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)

## 7.0 Manylion Cysylltu

---

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg hwn, cysylltwch â'r canlynol:

Cyd-drefnydd y Cynllun Iaith Gymraeg  
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)  
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL  
Ffôn: 029 2044 8044  
Ffacs: 029 2044 8045  
E-bost: [cymru@ico.gsi.gov.uk](mailto:cymru@ico.gsi.gov.uk)  
Safle wefan: [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk)

## Atodiad A

### Cynllun gweithredu i roi Cynllun Iaith Gymraeg yr ICO ar waith

Cyf	Camau	Dyddiad Targed
<b>2. Cynllunio Gwasanaethau a'u Cyflwyno</b>		
2.1	Adolygu'r weithdrefn bresennol ar gyfer sicrhau cysondeb â'r Cynllun Iaith wrth i bolisiau a gwasanaethau newydd gael eu datblygu, a sicrhau bod canllawiau'n cael eu rhoi i'r staff perthnasol.	Gwaith parhaus
2.1	Holl staff Cymru i gael hyfforddiant atgoffa ymwybyddiaeth ar yr uchod	Tachwedd 2010
2.1	Holl staff perthnasol y Brif Swyddfa i gael hyfforddiant ymwybyddiaeth ar yr uchod	Rhagfyr 2011
<b>3. Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg</b>		
3.1	Ymateb i bob gohebiaeth ysgrifenedig yn yr iaith y mae'n dod i law ynddi	Gwaith parhaus
3.1, 3.2	Rhoi hyfforddiant atgoffa i staff rheng flaen y Brif Swyddfa	Mehefin 2011
3.1	Datblygu a hybu system newydd i gofnodi unigolion sy'n dymuno cyfathrebu drwy'r Gymraeg er mwyn cyfathrebu â nhw yn Gymraeg fel y safon	Mawrth 2011
3.3	Adolygu gallu'r ICO i ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan yr ICO, yn enwedig drwy adolygu a diweddarau'r rhestr o gyfieithwyr ar y pryd sydd wedi'u cymeradwyo	Tachwedd 2010
<b>4. Wyneb Cyhoeddus Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yng Nghymru</b>		

4.2	Cytunir gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar Atodiad B ynghylch cyfieithu cyhoeddiadau, ei ddangos ar wefan yr ICO a'i ddefnyddio ar gyfer pob cyhoeddiad yn y dyfodol	Tachwedd 2010 (neu pan gytunir arno)
4.2	System at asesu cyhoeddiadau eraill (yn unol â pharagraff 6 o Atodiad B) i gael ei gytuno a'i sefydlu.	Tachwedd 2010
4.2	Cydweithio â'r adran Materion Corfforaethol i sicrhau eu bod yn cydgysylltu â swyddfa'r ICO yng Nghymru bob tro y byddan nhw'n ymdrin â chyhoeddiad y gall fod angen ei gyfieithu	Yn barhaus o Tachwedd 2010
4.2	Sicrhau bod yr adran Materion Corfforaethol yn rhoi gwybod i swyddfa'r ICO yng Nghymru pan fyddan nhw'n gweithio ar gyhoeddiadau newydd, deunydd newydd i'r we ac yn anfon gohebiaeth at randdeiliaid yng Nghymru	Ar sail ad-hoc o Tachwedd 2010
4.2	Cyflawni swyddogaeth gynghori o ran faint o fersiynau Cymraeg o gyhoeddiadau a fydd yn cael eu hargraffu a rhoi cyngor ar hybu a dosbarthu cyhoeddiadau Cymraeg - datblygu rhagor ar y perthnasoedd â'r partïon allweddol sydd â buddiant yn hyn o beth.	Yn barhaus o Tachwedd 2010
4.4	Meithrin perthynas â'r swyddfa wasg newydd yn yr adran Materion Corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr holl gysylltiadau â'r wasg / cyfryngau yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a rhoi cyngor ar gysylltu â'r wasg / cyfryngau Cymraeg yng Nghymru.	Tachwedd 2010 ac yn barhaus
4.7	Cydgysylltu ag adran Materion Cyhoeddus y Brif Swyddfa i wella adran Gymraeg gwefan yr ICO, fel rhan o ailddatblygu'r wefan yn gyffredinol.	O Tachwedd 2010
4.7	Sicrhau bod unrhyw ddatblygiad ar dudalen swyddfa ranbarthol Cymru ar y wefan yn cael ei adlewyrchu yn Gymraeg.	Ebrill 2011 ac yn barhaus
4.7	Nodi'r holl ddeunydd gwe Cymraeg ar y wefan a sicrhau bod modd ei gyrchu drwy'r botwm 'Cymraeg'.	Ebrill 2011 ac yn barhaus
4.7	Cynyddu faint o ddeunydd gwe sydd ar gael yn	Rhagfyr

	Gymraeg, gan roi blaenoriaeth i gyfieithu'r adran o'r wefan "For the public" (neu'r adran gyfatebol ar ôl i'r wefan gael ei hailddatblygu)	2012
4.7	Cynyddu faint o ddeunydd gwe sydd ar gael yn Gymraeg, drwy dargedu cyfieithu'r adran "Complaints" ar y wefan (neu'r adran gyfatebol ar ôl i'r wefan gael ei hailddatblygu)	Rhagfyr 2012
4.7	Dangos y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ar y wefan	Tachwedd 2010 (neu pan gaiff ei gymeradwyo)
<b>5. Gweithredu'r Cynllun a'i Fonitro</b>		
5.1	Sicrhau bod anghenion Cymraeg pob swydd sy'n cael ei recriwtio yn swyddfa'r ICO yng Nghymru wedi'u hasesu cyn bwrw ymlaen.  Sefydlu proses i helpu'r swyddi hyn yn unol â 5.1.3.	Gwaith parhaus  Ionawr 2011
5.1	Bydd yn ofynnol bod gan staff rheng flaen newydd sy'n cael eu recriwtio fedrau Cymraeg. Os caiff rhywun di-gymraeg ei recriwtio, bydd yn ofynnol i'r unigolyn ddysgu Cymraeg ar gyfer y swydd	Gwaith parhaus
5.1	Bydd yn ofynnol i staff di-gymraeg presennol mewn swydd yn y rheng flaen ddysgu Cymraeg ar gyfer y swydd	Lefel ganolradd i'w chyrraedd ar ôl dysgu am flwyddyn a hanner
5.1	Cydweithio â'r adran adnoddau dynol i sicrhau ymwybyddiaeth ddigonol o ofynion y Cynllun Iaith	Rhagfyr 2010
5.2	Caiiff yr holl staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg eu hannog i wneud hynny, a threfnir bod adnoddau ar gael i'w helpu i ddysgu lle bo modd	Gwaith parhaus
5.3.8	Cadw rhestr o gyfieithwyr sydd wedi'u cymeradwyo i sicrhau bod gan yr ICO y gallu i	Gwaith parhaus

	ymateb i'r cyhoedd yn Gymraeg pan fydd y galw'n fwy nag adnoddau mewnol yr ICO	
5.4	Adrodd yn ôl i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sut mae'r ICO yn bodloni gofynion y Cynllun Iaith a'r cynllun gweithredu	Bob blwyddyn o Fehefin 2011
<b>6. Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun</b>		
6.2	Trefnir bod holl staff yr ICO yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith diwygiedig newydd drwy'r fewnrwyd fewnol ac mewn cyfarfodydd staff a chyfarfodydd busnes priodol	Rhagfyr 2010
6.1	Trefnir bod y Cynllun Iaith ar gael hefyd drwy Gynllun Cydraddoldeb Sengl (SES) yr ICO, a'i integreiddio fel Atodiad ar wahân	Pan fydd yr SES wedi'i gymeradw yo gan reolwyr yr ICO

## Atodiad B

---

### Datganiad ar gyfieithu cyhoeddiadau

1. Diben yr atodiad hwn yw nodi'n glir sut y bydd yr ICO yn penderfynu pa gyhoeddiadau a gaiff eu cyfieithu i'r Gymraeg fel rhan o'r drefn safonol. Does dim bwriad i'r weithdrefn fod yn gwbl orfodol neu'n anhyblyg, ond fe ddylai esbonio'r rhesymau dros gyfieithu rhai cyhoeddiadau, ac nid eraill.
2. Yn unol ag adran 1.6 o Gynllun Iaith Gymraeg yr ICO, mae'r ICO wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Gweler adran 1.8 o'r Cynllun Iaith i gael y diffiniad o 'cyhoeddus' yn y cyd-destun hwn. I fod yn eglur, mae'r term 'cyhoeddus' wedi'i rannu rhwng 'y cyhoedd yn gyffredinol' a 'sefydliadau preifat' yn yr Atodiad hwn.
3. O ran egwyddor gyffredinol, bydd yr ICO yn ystyried cynulleidfa darged pob cyhoeddiad, lefel y mynediad i'r wybodaeth sy'n angenrheidiol a pha fesur o arbenigedd sydd yn y cyhoeddiad er mwyn penderfynu a ddylai gael ei gyfieithu neu beidio.
4. Pan fo cyhoeddiadau wedi'u targedu ar y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru, caiff y cyhoeddiadau hynny eu cyfieithu.
5. Pan fo cyhoeddiadau wedi'u targedu ar sefydliadau preifat sy'n gweithredu yng Nghymru, caiff y cyhoeddiadau hynny eu cyfieithu.
6. Pan nad yw cyhoeddiadau wedi'u targedu'n benodol, ond eu bod yn debyg o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol neu i sefydliadau preifat yng Nghymru, bydd y penderfyniad a ddylid eu cyfieithu yn cymryd i ystyriaeth hyd y cyhoeddiad, pa mor dechnegol neu arbenigol yw'r cyhoeddiad o ran ei natur, a pha mor berthnasol yw'r cyhoeddiad i'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a/neu i sefydliadau preifat sy'n gweithredu yng Nghymru. Caiff yr asesiad ei wneud mewn modd systematig, a fydd yn cynnwys y swyddfa yng Nghymru, a bydd cofnod o'r penderfyniad yn cael ei gadw.
7. Yn gyffredinol, yn uniaith Saesneg y cynhyrchir dogfennau technegol cymhleth wedi'u hanelu at y gymuned arbenigol ledled y DU.

8. Bydd cyhoeddiadau sy'n debyg o ddenu sylw sylweddol yn y cyfryngau yng Nghymru ar gael yn Gymraeg.
9. Bydd pob ymgynghoriad sy'n gwahodd ymateb gan y cyhoedd yn gyffredinol yn cael ei gyfieithu.
10. Mae'r ICO yn symud tuag at amgylchedd ar-lein ac mae'n lleihau nifer y cyhoeddiadau copi caled y mae'n eu cynhyrchu. Cyfyngir cyhoeddiadau copi caled ac ar ôl iddyn nhw gael eu dosbarthu, ar-lein yn unig y bydd y mwyafrif o'r cyhoeddiadau ar gael. Yn achlysurol bydd cyhoeddiadau'n cael eu cynhyrchu mewn copi caled yn unig i'w defnyddio mewn digwyddiad yn Lloegr; yn yr enghreifftiau hyn mae'n bosibl na fydd copïau caled o'r cyfieithiad ar gael ond fe fyddan nhw ar gael ar-lein.
11. Pan fo'n ymarferol, caiff cyhoeddiadau copi caled eu cynhyrchu ar ffurf dogfennau dwyieithog, ond fe fydd maint a chost cynhyrchu dogfen ddwyieithog yn cael eu hystyried, ac mewn rhai achosion fe fydd angen cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

### **Diffiniadau Allweddol**

Y Cyhoedd yn Gyffredinol: Aelodau unigol preifat o'r cyhoedd  
Sefydliadau preifat: Busnesau a sefydliadau yn y sector preifat, a chyrff yn y trydydd sector